# Polisi Gwaith Cartref a Cytundeb Cartref Ysgol

## DATGANIAD CYFFREDINOL

Mesurir cynnydd y disgyblion yn barhaol ac un agwedd ar yr asesu yw'r gwaith cartref. Mae gwaith cartref yn rhan hanfodol o raglen pob disgybl. Gall gynnwys amryfal weithgareddau megis gwaith ysgrifenedig, dysgu ar gof, ymholi ac ymchwilio. Defnyddir y llwyfan electronig Hwb Cymru ynghyd ag adnoddau ysgrifenedig i osod Gwaith Cartref. O fewn Hwb Cymru - Google Classroom dylai disgyblion ddilyn calendr Google o ran y Gwaith Cartref a osodir.

Credwn fod gwaith cartref cyson ar gyfer pob disgybl yn hanfodol am y rhesymau canlynol:-

a) Ymestyn pob disgybl.
b) Cynyddu'r ymdeimlad yn y disgybl o ddifrifoldeb y broses addysgol.
c) Datblygu arfer dda a'r ddawn i weithio ar ei ben ei hun.
ch) Dangos i rieni y gwaith y mae'r disgybl yn ei wneud fel eu bod yn teimlo'n rhan o'r broses.
d) Atgyfnerthu'r gwaith a wneir yn y dosbarth.

SUT?

1. Mae Dyddiadur Hwb Cymru – Google Classroom yn nodi pa waith cartref sydd wedi ei osod ac erbyn pryd.
2. Athro yn nodi y gwaith cartref mewn Go4Schools neu llyfr marcio.

FAINT?

Bydd hyn yn amrywio yn ôl oed a gallu a cheir manylder ym mholisi gwaith cartref adrannol.

CAMAU I'W CYMRYD GYDA DISGYBL NAD YW'N CWBLHAU GWAITH CARTREF.

1. Yr athro pwnc i gymryd y mesurau arferol i ddisgyblu, e.e. gosod gwaith ychwanegol.
2. Yr athro pwnc i anfon neges testun adref pan nad yw'r disgybl wedi gwneud gwaith cartref.
3. Problemau difrifol i gael eu cyfeirio i sylw'r **Pennaeth Adran**. Anfonir llythyr adref gan y Pennaeth Adran.
4. Os methir gyda'r camau hynny, yna trosglwyddo'r achos i sylw Pennaeth Blwyddyn ac anfon llythyr at y rhieni.
5. Os methir a datrys y broblem yn yr ysgol yna'r Pennaeth Blwyddyn yn anfon llythyr yn gofyn i'r rhiant ddod i'r ysgol i drafod y broblem.

# Homework Policy and Home School Agreement

**GENERAL STATEMENT**

Pupils' progress is measured continuously and one aspect of the assessment is homework. Homework is an essential part of every pupil's programme. It can include various activities such as written work, memorising, enquiring and researching. The electronic Hwb Cymru platform and written resources are used to set Homework. Within Hwb Cymru - Google Classroom pupils should follow the Google calendar for Homework set.

We believe that regular homework for every pupil is essential for the following reasons:-

a) To stretch each pupil.
b) To increase the pupil's perception of the seriousness of the educational process.
c) To develop good practice and the ability to work on their own.
d) To show parents the work the pupil does so that they feel part of the process.
e) To reinforce work done in class.

HOW?
1. The Hwb Cymru – Google Classroom Diary notes what homework has been set and when it should be completed .
2. Teacher to note the homework in Go4Schools or mark book.

HOW MUCH?

This will vary according to age and ability. Further details can be obtained from the departmental Homework Policy.

STEPS TO TAKE WITH A PUPIL WHO DOES NOT COMPLETE HOMEWORK.

1. The subject teacher to take the usual measures to discipline, e.g. setting extra work.
2. The subject teacher to send a text message to the parents informing them that the homework has not been done.
3. Serious problems to be referred to the attention of the **Head of Department.** Head of Department to send a letter home.
4. If these steps fail, then transfer the case to the attention of the Head of Year and send a letter to parents.
5. If the matter fails to be solved in school then the Head of Year to send a letter asking the parent to come to the school to discuss the problem.

# Cytundeb Cartref Ysgol

Crynodeb o'r prif ofynion yn seiliedig ar Cylchlythyr 27/99 Y Swyddfa Gymreig "Cytundeb Cartref – Ysgol : Canllawiau i Ysgolion" Mai 1999

- Fe'u cyflwynir trwy Adran 110 ac 111 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Addysg, 1998.
- Er bod y gofynion statudol yma'n dod i rym ar Fedi 1, 1999, mae'r Swyddfa Gymreig yn cydnabod na fydd hyn y bosibl ym mhob achos, oherwydd yr oedi o safbwynt cyhoeddi Cylchlythyr 27/99. Fodd bynnag, mae disgwyl i'r gofynion gael eu gweithredu cyn gynted a bo modd.
- Rhaid i Gyrff Llywodraethol ystyried Cylchlythyr 27/99 wrth weithredu'r gofynion a osodir arnynt.
- Nid oes grym cyfreithiol iddynt ac ni ellir erlyn ar sail torri cytundebau, nag ychwaith gwahardd disgyblion.
- Cyn mabwysiadu, neu ddiwygio, cytundebau rhaid ymgynghori â rhieni holl ddisgyblion cofrestredig. Dylid hefyd ystyried ymgynghori ag eraill – gweler Paragraff 12.
- Eu diben yw esbonio prif gyfrifoldebau ysgolion â rhieni o ran
  - Codi safonau,
  - Gwerthoedd yr Ysgol
  - Cyfrifoldebau'r Ysgol
  - Cyfrifoldebau rhieni
  - Disgwyliadau ar ddisgyblion
- Rhaid cymryd camau rhesymol i sicrhau fod rhieni'n arwyddo'r cytundebau oni bai bo amgylchiadau arbennig. Bydd rôl i'r Gwasanaeth Lles Addysg yn hyn o beth.
- Rhaid gwahodd disgyblion i arwyddo'r cytundebau os ystyrir eu bod yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol.
- Rhaid adolygu'r cytundebau o bryd i'w gilydd – awgrymir pob 2/3 blynedd.
- Ni all yr Awdurdod Derbyn osod arwyddo cytundeb fel amod derbyn.
- Disgwylir y bydd cytundebau'n rhan annatod o'r bartneriaeth â rhieni ac anogir ysgolion i adolygu eu polisïau cyffredinol yn y maes llunio cytundebau.
- Fe allai'r cytundeb gyfeirio at y drefn gwyno newydd.
- Os yw disgybl ar gofrestr mwy nag un Ysgol, dylai'r ddwy ysgol weithredu'r gofynion.
- O safbwynt plant y gofelir amdanynt gan yr Awdurdod Lleol, dylid ystyried y cyswllt â Gwasanaethau Cymdeithasol ac os yn briodol, rhieni maeth. Y sawl sydd â gofal rhiant, fodd bynnag, sef y Gwasanaethau Cymdeithasol, a ddylai arwyddo.
- Cred yr ysgrifennydd Gwladol y dylai cytundebau gwmpasu:
  - safon addysg / targedau,
  - ethos,
  - presenoldeb,
  - disgyblaeth ac ymddygiad,
  - gwaith cartref,
  - gwybodaeth i'w gyfnewid,
  - dull ymdrin â chwynion.
- Ni ddylid cynnwys amodau anghyfreithlon neu afresymol.
- Dylai llunio cytundebau yn achos camymddygiad fod yn broses ar wahân.
- Dylid darparu copi o'r cytundebau llofnodedig i rieni.

# CYTUNDEB CARTREF/YSGOL UWCHRADD

**Disgybl - Gwnaf fy ngorau i:**
- Weithio'n galed yn yr ysgol i gyrraedd fy nhargedau.
- Wneud fy ngwaith cartref a gwaith cwrs yn brydlon ac hyd eithaf fy ngallu.
- Gyflwyno fy ngwaith yn daclus.
- Ddod â'r offer cywir i'r holl wersi.
- Fod yn brydlon.
- Fod yn bresennol a dal i fyny â gwaith y gallwn fod wedi ei golli.
- Fod yn onest.
- Gadw at holl reolau'r ysgol.
- Wisgo gwisg ysgol.
- Barchu fy hun ac eraill.
- Ofyn am gymorth os oes gennyf broblemau.
- Feddwl yn aeddfed am fy nyfodol, gwrando ar gyngor a gweithredu arno.

**Pupil - I will do my best to:**
- Work hard in school and reach my targets.
- Do my homework and coursework punctually and to the best of my ability.
- Present my work tidily.
- Bring the correct equipment to all lessons.
- Be punctual.
- Be present and catch up on all work that I could have missed.
- Be honest.
- Keep to all the school rules.
- Wear my school uniform.
- Respect myself and others.
- Ask for help if I have any problems.
- Think maturely about my future and listen to advice and implement it.

**Ysgol - Gwnawn ein gorau i:**
- Sicrhau bod eich plentyn yn dilyn cwricwlwm addas ac yn cael ei ymestyn hyd eithaf ei allu.
- Osod gwaith cartref addas a rheolaidd.
- Annog eich plentyn i barchu ei hun ac eraill.
- Sicrhau amgylchedd saff i'ch plentyn.
- Ddysgu eich plentyn sut i fod yn aelod gwâr o gymdeithas.
- Roi gwybod i chi am gynnydd eich plentyn a chysylltu'n syth os oes problem gyda gwaith, ymddygiad, presenoldeb neu brydlondeb.
- Roi cyngor i'ch plentyn ynglyn â dewisiadau addysgol a phersonol.
- Ymateb yn brydlon i unrhyw fater yr hoffech ei drafod.

**School - We will do our best to:**
- Ensure that your child follows a suitable curriculum and is extended to his/her full ability.
- Set suitable and regular homework.
- Encourage your child to respect himself and others.
- Ensure a safe environment for your child.
- Teach your child how to be a civilised member of society.
- Inform you of your child's progress and contact you immediately if there is a problem with work, behaviour, attendance or punctuality
- Give your child advice concerning educational and personal choices.
- Respond to you punctually regarding any matter you wish to discuss.

**Rhiant / Gwarchodwr - Gwnaf/Gwnawn ein gorau i:**
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn gwneud ei waith cartref mewn lle addas ac yn dal i fyny â gwaith a gollwyd.
- Sicrhau bod fy/ein plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn cyrredd yn brydlon.
- Roi nodyn o eglurhad os yw fy/ein plentyn wedi bod yn absennol o'r ysgol.
- Ddod i'r cyfarfodydd rhieni.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn cael digon o gwsg.
- Wneud yn siwr bod fy/ein plentyn yn parchu rheolau'r ysgol.
- Wneud yn siwr bod gan fy/ein plentyn yr offer cywir.
- Siarad efo fy/ein plentyn am ei fywyd a'i waith yn yr ysgol.
- Ddweud wrth yr ysgol yn syth os oes unrhyw fater yn ein poeni ac am unrhyw newid gartref a all effeithio ar fy/ein plentyn.

**Parent / Guardian - I/We will do our best to:**
- Ensure that my/our child does his/her homework in a suitable place and catches up with any work he/she has missed.
- Ensure that my/our child attends school regularly and arrives punctually.
- Provide an explanatory note if my/our child has been absent from school.
- Attend parents' meetings.
- Ensure that my/our child has enough sleep.
- Ensure that my/our child respects the school's rules.
- Ensure that my/our child has the correct equipment.
- Talk to my/our child about his life and work at school.
- Inform the school immediately if there is any matter causing concern and of any change at home that could affect my/our child.

Arwyddwyd / Signed:

________________________________
Ysgol / School)

**ENW'R DISGYBL YN LLAWN/ PUPILS NAME IN FULL:**

____________________________________________________________

**DOSB/CLASS:** __________

**Arwyddwyd/SIGNED:** ____________________________ **(Disgybl / Pupil)**

**Arwyddwyd/Signed:** ____________________________ **(Rhiant / Gwarchodwr) (Parent / Guardian)**